

Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig 'Trefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit'

Tachwedd 2019

Argymhelliad 1

Dylai Bil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r egwyddorion amgylcheddol a bylchau o ran llywodraethu ar ôl Brexit:

- cynnwys amcan trosfwaol i sicrhau lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd y mae'r egwyddorion amgylcheddol wedi'u fframio oddi mewn iddo;
- rhestru pob un o'r pedair egwyddor amgylcheddol graidd ar wyneb y Bil; a
- rhestru "peidio â chaniatáu dirywiad" neu "ddilyniant" fel egwyddor ar wyneb y Bil.

Ymateb: Yn derbyn mewn egwyddor

Rydym yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid drwy fy Ngrŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid ar Lywodraethu Amgylcheddol i nodi sut rydym yn mynd i'r afael â'r bylchau mewn egwyddorion amgylcheddol - nid yn unig pa egwyddorion rydym yn eu cynnwys yn ein fframwaith deddfwriaethol ond sut rydym yn cyflawni hyn mewn ffordd sy'n ategu ein deddfwriaeth bresennol.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad mewn egwyddor, gan fod Cymru eisoes wedi deddfu ar gyfer datblygu cynaliadwy fel cyd-destun trosfwaol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n bwysig sut rydym yn mynd i'r afael â bylchau mewn egwyddorion a chynnwys unrhyw amcanion amgylcheddol trosfwaol gan sicrhau eu bod yn gydnaws â phensaernïaeth bresennol y Ddeddf hon yn ogystal â'n dull o reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy fel y darperir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Yn ogystal, rydym wedi mynd ati yng Nghymru i adeiladu ar ein safonau amgylcheddol yn hytrach na dim ond sefyll yn llonydd, sy'n cael ei awgrymu gan ymagwedd nad yw'n llithro'n ôl. Mae ein Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn adlewyrchu hyn yn y diffiniad o reoli hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, sydd nid yn unig yn ceisio cynnal ond hefyd yn gwella cydnerthedd ecosystemau yn ogystal â'r buddion lluosog a ddaw yn sgil ecosystemau sy'n gweithio – megis aer glân a dŵr ffres. Felly, byddwn yn ceisio sicrhau y gallwn barhau i adeiladu ar ein safonau yn hytrach na gweithredu dull aros yn llonydd.

Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru asesu manteision cynnwys egwyddorion yr UE ac egwyddorion rhyngwladol o fewn Bil ar gyfer Cymru yn y dyfodol, ac adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor hwn ar ei chanfyddiadau.

Ymateb: Yn derbyn

Yn ôl ein hymateb i Argymhelliad 1, bydd y Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid ar Lywodraethu Amgylcheddol yn darparu ei argymhellion ar ddechrau 2020 gan gynnwys pa egwyddorion ychwanegol, os o gwbl, y gellir eu cynnwys yn neddfwriaeth Cymru.

Gan fod Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn deillio o arfer gorau rhyngwladol, yng Nghymru mae gennym eisoes nifer o egwyddorion rhyngwladol sy'n mynd y tu hwnt i bedair egwyddor graidd yr UE. Mae'r rhain yn cynnwys cydnerthedd, rheoli addasol, graddfa, cyfranogiad, goblygiadau hirdymor a gwerth.

Mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i barhau i gymhwyso egwyddorion amgylcheddol yr UE ar ôl gadael; bydd hyn yn cael ei gyflawni yn y tymor byr trwy gymhwysedd parhaus ein deddfwriaeth ddomestig.

Cynullwyd Grŵp Gorchwyl ar Lywodraethu Amgylcheddol ym mis Gorffennaf sydd wedi'i rannu ymhellach yn is-grwpiau. Bydd yr is-grŵp egwyddorion yn myfyrio ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar *Egwyddorion Amgylcheddol a'r Trefniadau Llywodraethu yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd* ac yn ystyried manteision cynnwys unrhyw egwyddorion ychwanegol. Mae disgwyl i'r Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid gyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Argymhelliad 3

Wrth bennu i ba raddau y dylai'r ddyletswydd i gymhwyso egwyddorion amgylcheddol yn y dyfodol fod yn berthnasol, dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio, fel man cychwyn, y cyrff cyhoeddus a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Ymateb: Gwrthod

O dan system yr UE, mae'r egwyddorion amgylcheddol a restrir yn erthygl 191 y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd yn berthnasol i sefydliadau'r UE yn unig, ac nid ydynt yn berthnasol i aelod-wladwriaethau, ac mae hyn yn ei dro yn golygu nad yw egwyddorion amgylcheddol yr UE yn berthnasol i unrhyw gorff cyhoeddus o fewn yr aelod-wladwriaethau. Diben pedair egwyddor amgylcheddol yr UE yw darparu canllawiau ar gyfer sefydliadau'r UE drwy helpu i lywio ffurf a datblygiad cyfraith a pholisi amgylcheddol ar lefel yr UE. Er enghraifft, wrth ddatblygu polisiau ar drwyddedu a chaniatáu gweithgareddau llygru, gellir rhoi egwyddorion y llygrwr sy'n talu ar waith yn y gofyniad i'r parti sy'n cyflawni'r gweithgaredd llygru dalu.

Yn ein dogfen ymgynghori, gofynnwyd i randdeiliaid roi eu barn ar ymestyn y ddyletswydd i geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i set ehangach o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys yr egwyddorion (fel y darperir yn adrannau 3 a 4 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016). Roedd yr ymatebion, yn cynnwys ymatebion gan nifer o gyrff cyhoeddus, gan mwyaf, o blaid hyn, ac rydym yn gweithio gyda'r Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid ar Lywodraethu Amgylcheddol i ddatblygu cynigion.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrhau ymrwymiad gan Lywodraeth y DU y bydd cyrff heb eu datganoli sy'n gweithredu yng Nghymru'n ymlynu wrth yr egwyddorion amgylcheddol yn y dyfodol.

Ymateb: Yn derbyn mewn egwyddor

Fel y nodir yn yr ymateb i Argymhelliad 3, roedd y cynnig a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori yn ymwneud ag ymestyn dyletswydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r egwyddorion cysylltiedig fel y darperir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru). Bydd trafodaethau gyda rhanddeiliaid yn parhau ynghylch a ellid ymestyn y ddyletswydd hon i grŵp ehangach o gyrff cyhoeddus, ac i bwy y gellid gwneud hynny.

Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Llywodraeth y DU ynghylch hyd a lled unrhyw ddyletswydd sy'n ymwneud â chymhwyso egwyddorion amgylcheddol ar Weinidogion y Goron. Gwnaed diwygiad i Fil Amgylchedd y DU, sydd bellach ddim yn mynd rhagddo, ar sail egwyddorion amgylcheddol Cymru i'w cymhwyso i Weinidogion y Goron yn y DU. Bydd y trafodaethau hyn yn parhau gyda Llywodraeth newydd y DU ar ôl yr Etholiad Cyffredinol.

Mewn perthynas â chyrff cyhoeddus eraill sydd heb eu datganoli, byddwn yn trafod â Llywodraeth y DU sut i ymestyn y ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn fwy cyffredinol hefyd.

Argymhelliad 5

Dylai Bil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol gynnwys darpariaeth ar gyfer diwygio'r rhestr o egwyddorion, a chyrff cyhoeddus y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt, at ddibenion ychwanegu at y rhestrau hynny, neu dynnu enwau oddi arnynt. Dylai diwygiadau i'r rhestrau hyn fod yn destun lefel briodol o graffu gan y Cynulliad.

Ymateb: Yn derbyn

O ran yr egwyddorion a'r cyrff y cytunwyd y dylid eu cynnwys o fewn y fframwaith newydd hwn, rydym yn derbyn yr argymhelliad uchod fel y gall y rhestr o egwyddorion gael ei diweddarau yn ogystal â'r cyrff y gall dyletswydd fod yn berthnasol iddynt.

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru, cyn pen tair wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, roi manylion pellach i'r Pwyllgor am ei chytundeb â Llywodraeth y DU i fod â set gyffredin o egwyddorion amgylcheddol a rennir. Wrth wneud hynny, dylai:

- egluro ffurf y cytundeb â Llywodraeth y DU a sut y bydd yn cael ei gyflawni'n ymarferol;
- egluro beth fydd y set o egwyddorion amgylcheddol;
- nodi'r rhesymeg ar gyfer pob un o'r egwyddorion hynny; a
- nodi sut y bydd yr egwyddorion domestig cyfredol yn cael eu cynnal o fewn yr egwyddorion a rennir.

Ymateb: Yn derbyn

Rydym ni, gyda gweinyddiaethau'r DU, yn ystyried dull cydweithredol o ymdrin ag egwyddorion amgylcheddol a fydd yn sicrhau set gydlynol o egwyddorion ledled y DU, tra'n caniatáu i bob gweinyddiaeth bennu'r mesurau priodol ar gyfer eu hamgylchiadau cenedlaethol.

Yn sgil yr Etholiad Cyffredinol, byddwn wrth gwrs yn sicrhau bod y trafodaethau hyn yn parhau gydag unrhyw Lywodraeth newydd yn y DU.

O fewn ein datblygiad cynaliadwy cyffredinol, ceir nifer o egwyddorion amgylcheddol, sy'n deillio o arfer gorau rhyngwladol, sydd eisoes yn llywio polisi a'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r rhain yn cynnwys atal, graddfa, cydnerthedd, cyfranogiad y cyhoedd, cydweithredu, hirdymor, gwerth, tystiolaeth a rheoli addasol. Bydd ymagwedd gydweithredol tuag at egwyddorion amgylcheddol yn caniatáu i ni benderfynu beth yw'r ymateb deddfwriaethol cywir yng Nghymru i'r egwyddorion amgylcheddol fel ein bod yn ategu, yn hytrach na thorri ar draws, ein deddfwriaeth bresennol.

Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei safbwynt ar sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol sy'n gweithredu ledled y DU, a hynny ar frys. Wrth wneud hynny, dylai ddarparu manylion, y tu hwnt i'r rhai a ddarparwyd eisoes, yr hyn a fyddai yn ei thyb hi yn gyfystyr â chorff ledled y DU sy'n diwallu anghenion Cymru.

Ymateb: Yn derbyn

Fel y nodwyd mewn ymatebion blaenorol, nid oedd y model a gyflwynwyd ym Mil Amgylchedd y DU sydd bellach wedi methu, yn fodel a oedd yn addas i Gymru. Fe'i cynlluniwyd i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd ar gyfer Lloegr gan gynnwys goruchwyllo ei Chynllun Amgylchedd 25 Mlynedd. Nid oedd hwn yn ymateb a gynlluniwyd i fynd i'r afael â llywodraethu ar lefel y DU gyfan.

Fodd bynnag, dim ond un garfan yw Llywodraeth y DU o ran ymdrin â dull gweithredu ar gyfer y DU gyfan ac o'r herwydd nid yw ein trafodaethau wedi'u cyfyngu i Lywodraeth y DU yn unig ond hefyd i'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

Cyflwynodd Llywodraeth yr Alban ei hymateb i lywodraethu amgylcheddol yn ei hymgyngoriad a ddaeth i ben ym mis Mai eleni.

Rydw i bob amser wedi dweud fy mod yn barod i ymgysylltu â'r gweinyddiaethau eraill ynghylch sut i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau ar lefel y DU gyfan ac ynghylch sut y gellid mynd i'r afael â hyn mewn ffordd sy'n parchu'r setliad datganoli a rôl cyrff datganoledig sydd â chyfrifoldeb dros atebolrwydd, gan gynnwys rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ni oedd yr unig weinyddiaeth i geisio barn rhanddeiliaid ar ddull y DU gyfan o lywodraethu amgylcheddol.

Gellir mynd i'r afael ag unrhyw fylchau ar lefel y DU gyfan mewn sawl ffordd wahanol ac mae ein trafodaethau gyda'r gweinyddiaethau eraill wedi ystyried y cyfleoedd ar gyfer cydweithredu rhwng dulliau gwahanol posibl mewn gwahanol weinyddiaethau. Ceir cyfleoedd ar gyfer cydweithio, er enghraifft, rhannu data a gwybodaeth a'r gallu i fynd i'r afael â materion traws-ffiniol. O safbwynt y dinesydd, bydd yn bwysig galluogi achwynydd i godi cwyn mewn un weinyddiaeth a, lle bo hynny'n briodol, bod y gŵyn honno'n cael ei hystyried mewn modd cydweithredol ar y cyd â chorff llywodraethu arall.

Roedd ein hymgyngoriad yn darparu nifer o nodweddion allweddol, y gwnaethom geisio barn arnynt gan rhanddeiliaid; byddai'r nodweddion hyn yn gymwys p'un a yw'r ymateb yn berthnasol i Gymru'n unig neu'n berthnasol i'r DU gyfan.

Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor ar ei thrafodaeth ddiweddaraf gyda Llywodraethau'r DU a Llywodraeth yr Alban am gynigion ar gyfer dull ledled y DU o lenwi'r bylchau o ran llywodraethu. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys manylion unrhyw drafodaeth gyda'i gweinyddiaethau cyfatebol ar ddatblygu corff llywodraethu amgylcheddol sy'n gweithredu ledled y DU, a chanlyniad hyn.

Ymateb: Yn derbyn

Fel yr amlinellwyd yn Argymhelliad 7 mae trafodaethau wedi bod yn mynd ymlaen gyda'r gweinyddiaethau eraill, gan gynnwys pa ddulliau cydweithredol y gellid eu cyflawni. Roedd Bil y DU, fel y'i cyflwynwyd er nad yw bellach yn mynd rhagddo, wedi'i ddiwygio i alluogi Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd y DU i ymgynghori ag endidau tebyg eraill.

Bydd swyddogion yn parhau i ymgysylltu â gweinyddiaethau eraill y DU.

Argymhelliad 9

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod rôl ac amcanion y corff llywodraethu amgylcheddol newydd wedi'u diffinio'n glir o fewn Bil ar gyfer Cymru yn y dyfodol. Rhaid nodi'n glir ble y mae'r ffiniau rhwng rôl a swyddogaethau'r corff newydd a rolau a swyddogaethau cyrff presennol yng Nghymru. Lle y ceir gorgyffwrdd, neu orgyffwrdd posibl, rhaid sefydlu mecanweithiau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol addas i reoli'r rhain.

Ymateb: Yn derbyn

Rydym wedi bod yn glir yn ein hymagwedd at drefniadau llywodraethu amgylcheddol yn y dyfodol; rhaid i ni sicrhau bod ein hymateb yng Nghymru yn un sy'n ategu, yn hytrach na thorri ar draws, dyblygu neu wrthdaro â chyrrff presennol Cymru.

Gall fod gan y cyrrff presennol rôl bwysig i'w chwarae mewn strwythur llywodraethu effeithiol a chydlynol a bydd yn bwysig sicrhau bod y rolau a'r cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir.

Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu i unrhyw gorff llywodraethu newydd sy'n gweithredu yng Nghymru weithio gyda'r OEP arfaethedig ac unrhyw gorff cyfatebol yn yr Alban i sicrhau dull cydgysylltiedig o ddiogelu'r amgylchedd ledled y DU ar ôl Brexit.

Ymateb: Yn derbyn

Fel yr amlinellwyd yn yr ymatebion i Argymhellion 7 ac 8, roedd trafodaethau wedi bod yn mynd ymlaen o ran dulliau gweithredu cydweithredol rhwng trefniadau llywodraethu yn y gweinyddiaethau priodol.

Fel y nodwyd yn yr ymateb i Argymhelliad 8, roedd Bil y DU, cyn iddo beidio mynd rhagddo, wedi cael ei ddiwygio i alluogi Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd y DU i ymgynghori ag endidau tebyg eraill.

Mae trafodaethau'n parhau gyda'r gweinyddiaethau eraill.

Argymhelliad 11

Rhaid i'r corff llywodraethu amgylcheddol newydd fod yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Rhaid iddo:

- gael ei benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol a bod yn atebol iddo;
- cael ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru; a
- chael ei ariannu trwy Gronfa Llywodraeth Cymru

Ymateb: Yn derbyn

Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn ac yn cytuno y dylai unrhyw fodel llywodraethu amgylcheddol newydd yng Nghymru fod yn annibynnol.

O'r cychwyn cyntaf, rydym wedi nodi'r gofyniad i unrhyw fodel llywodraethu newydd weithredu'n annibynnol a byddwn yn parhau i ystyried y rhinweddau y bydd eu hangen ar unrhyw fodel llywodraethu newydd er mwyn sicrhau canlyniad sy'n sicrhau bod dull llywodraethu da yn cael ei weithredu.

Ceisiais farn am yr ystyriaethau hyn yn ein dogfen ymgynghori ac fe'u cefnogwyd yn gyffredinol gan ymatebwyr.

Argymhelliad 12

Dylai Llywodraeth Cymru wneud darpariaeth i sicrhau bod corff llywodraethu newydd Cymru yn rhoi trefniadau addas ar waith i ddarparu gwahaniad strwythurol clir a chryf rhwng ei swyddogaethau cynghori a rheoleiddio.

Ymateb: Yn derbyn

Mae'r swyddogaethau sydd i'w cyflawni mewn perthynas â llywodraethu amgylcheddol yn cael eu hystyried gan y Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid ar Lywodraethu Amgylcheddol, a fydd yn cyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau cychwynnol ar ddechrau 2020.

Yn gyffredinol, derbyniwn yr argymhelliad hwn gan y bydd yn bwysig cael gwahaniaethu clir mewn swyddogaethau er mwyn darparu strwythur llywodraethu cydlynol ac effeithiol. Bydd angen trafod gyda rhanddeiliaid a hefyd gyda chynrychiolwyr o'r cyrff atebolrwydd presennol yng Nghymru sut y gellir cyflawni hyn.

Argymhelliad 13

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y dylai cwmpas y corff llywodraethu newydd ymestyn i bob corff cyhoeddus yng Nghymru y bydd yn ofynnol iddynt gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol.

Ymateb: Yn derbyn

Mewn perthynas â'r egwyddorion amgylcheddol, gweler yr ymateb i Argymhelliad 3.

Mewn perthynas â'r cyrff sy'n ddarostyngedig i gylch gwaith llywodraethu amgylcheddol, rydym ar hyn o bryd yn ystyried y cylch gwaith hwn gyda rhanddeiliaid, yn enwedig mewn perthynas â'r cysylltiadau â chyfraith amgylcheddol yn hytrach na chymhwyso egwyddorion amgylcheddol yn benodol.

Argymhelliad 14

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu esboniad manwl o'r bylchau sy'n codi o ganlyniad i golli swyddogaeth monitro ac adrodd yr UE, a'i chynigion i fynd i'r afael â'r rhain, y tu hwnt i'r rhai a nodwyd yn ei hymgyngoriad.

Ymateb: Yn derbyn

Bydd Deddf Ymadael 2018, ar ddiwrnod ymadael â'r UE, yn trosi deddfwriaeth sy'n uniongyrchol gymwys i gyfraith ddomestig ac yn arbed cyfraith ddomestig a gyflwynwyd o dan Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae'r rhaglen helaeth o is-ddeddfwriaeth cywiro ymadael â'r UE wedi mynd i'r afael â diffygion yn y ddeddfwriaeth hon sy'n deillio o'r UE, gan gynnwys trosglwyddo swyddogaethau adrodd Comisiwn yr UE i gyfraith ddomestig.

Nod y rhaglen o ddeddfwriaeth cywiro ymadael â'r UE oedd cadw'r status quo ar y diwrnod ymadael.

Lle'r oedd Comisiwn yr UE yn adrodd i Gonfensiynau Rhyngwladol, yr Ysgrifennydd Gwladol fyddai'n gyfrifol am y ddyletswydd hon.

Ar hyn o bryd, rydym yn edrych ar yr holl ofynion monitro ac adrodd o fewn y ddeddfwriaeth. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, ymgynghorir â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Byddwn yn nodi risgiau a lle y gallai ein gofynion adrodd a'n sail dystiolaeth ehangach gael eu heffeithio.

Yn ogystal â'r gofynion monitro ac adrodd o dan ddeddfwriaeth yr UE, rydym hefyd wedi cyflwyno adroddiadau newydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd fel yr amlinellir yn y ddogfen ymgynghori megis Adroddiad Blynyddol Llesiant Cymru a'r adroddiad bob pum mlynedd ar Gyflwr Adnoddau Naturiol.

Argymhelliad 15

Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa ofynion monitro ac adrodd, y tu hwnt i'r rhai sydd wedi'u cynnwys yng nghyfraith bresennol Cymru, fydd ar waith ar ôl Brexit i gefnogi goruchwylio a chraffu effeithiol ar weithredu deddfwriaeth amgylcheddol. Wrth wneud hynny, dylai egluro a yw gofynion adrodd yr UE wedi'u cadw mewn cyfraith ddomestig, a'u haddasu.

Ymateb: Yn derbyn

Gweler yr ymateb i Argymhelliad 14, sy'n amlinellu'r ffordd y mae'r gofynion adrodd yn neddfwriaeth yr UE wedi'u cadw.

Argymhelliad 16

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor ar unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â sut y mae'n bwriadu cyflawni ei rhwymedigaethau adrodd rhyngwladol ar faterion amgylcheddol yn dilyn gadael yr UE.

Ymateb: Yn derbyn

Gan mai'r DU sy'n barti i'r cytundebau rhyngwladol, mae swyddogaethau adrodd rhyngwladol Comisiwn yr UE wedi'u trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol yn y ddeddfwriaeth gywiro berthnasol wrth ymadael â'r UE.

Mae trafodaethau'n mynd yn eu blaen ynghylch y cysylltiadau rhynglywodraethol ar ôl gadael yr UE ledled y DU, gan gynnwys sut y bydd y pedair gweinyddiaeth yn gweithio gyda'i gilydd ar faterion rhyngwladol.

Lle mae pedair gweinyddiaeth y DU wedi nodi bod angen fframwaith cyffredin ar gyfer maes polisi penodol ar ôl gadael yr UE, yna un o'r egwyddorion a ddylid ei ddefnyddio wrth ei ddatblygu yw sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol.

Argymhelliad 17

Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa rôl fydd gan y corff llywodraethu newydd o ran hwyluso'r broses o adrodd ar rwymedigaethau a chytundebau rhyngwladol ar faterion amgylcheddol.

Ymateb: Yn derbyn

Fel y nodwyd yn yr ymateb i Argymhelliad 12, mae'r swyddogaethau sydd i'w cyflawni mewn perthynas â llywodraethu amgylcheddol yn cael eu hystyried gan y Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid ar Lywodraethu Amgylcheddol, a fydd yn cyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau cychwynnol ar ddechrau 2020.

Mewn perthynas ag adrodd ar rwymedigaethau rhyngwladol, gan fod y DU yn barti i gonfensiynau rhyngwladol a bod cysylltiadau rhyngwladol yn fater a gadwyd yn ôl i Lywodraeth y DU, bydd y ddyletswydd i adrodd ar rwymedigaethau rhyngwladol, ar ôl gadael, gyda'r Ysgrifennydd Gwladol.

Argymhelliad 18

Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu safbwynt clir a chryf y dylai'r DU barhau â'i haelodaeth o Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop, ac asiantaethau eraill yr UE sydd ag arbenigedd amgylcheddol, lle mae gwerth amlwg. Dylai adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor ar ganlyniad trafodaeth gyda Llywodraeth y DU yn y dyfodol ar y mater hwn.

Ymateb: Yn derbyn

Rydym yn cytuno y byddai parhau'n aelod o Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop ac asiantaethau eraill yn fuddiol o ran gallu cael mynediad i dystiolaeth, arbenigedd a datblygiadau allweddol.

Byddwn yn parhau i gynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU ar barhau i weithio mewn partneriaeth â chyrff ac asiantaethau'r UE ac mae cydweithio yn y dyfodol yn bwysig er mwyn cyflawni ein nodau rhyngwladol.

Fodd bynnag, bydd aelodaeth barhaus yn dibynnu ar fodel y berthynas yn y dyfodol rhwng yr UE a'r DU a'r asiantaethau sy'n cyflawni swyddogaethau ar ein rhan.

Argymhelliad 19

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynigion ar gyfer system ddirwyo i roi cymorth wrth orfodi cyfraith amgylcheddol yn effeithiol ar ôl Brexit. Dylai'r cynigion hyn gael eu goleuo gan adolygiad o enghreifftiau rhyngwladol o systemau dirwyo sy'n gweithredu mewn cyd-destun domestig, megis yn Seland Newydd. Dylid ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch y cynigion.

Ymateb: Gwrthod

Fel y trafodwyd yn flaenorol, mae'r swyddogaethau priodol ar gyfer system llywodraethu amgylcheddol yn cael eu trafod gyda rhanddeiliaid gan gynnwys pa swyddogaethau gorfodi y gallai fod eu hangen.

Yn ein hymgyngoriad, dywedwyd y dylai ffocws llywodraethu da fod ar leihau'r diffyg cydymffurfio gan ystyried camau gorfodi fel y cam olaf un. Ein bwriad yw canolbwyntio ar fodel llywodraethu effeithiol, nad yw'n dibynnu'n llwyr ar fesurau cosbol megis dirwyon.

Rydym am ddatblygu model sy'n helpu i fynd i'r afael â'r materion dan sylw a'u hunioni, ac ni ellir cyflawni hyn drwy system sy'n seiliedig ar ddirwyon yn unig. O dan system bresennol yr UE, caiff dirwyon eu dosbarthu fel dull dewis olaf gyda'r ffocws ar unioni materion yn hytrach na rhoi dirwyon.

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo o ran asesu modelau mewn awdurdodaethau eraill, gan ystyried diben y modelau hyn a chyfansoddiadau penodol yr awdurdodaethau hyn.

Argymhelliad 20

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylai ac, os felly, sut y dylai dirwyon am ddiffyg cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol fod yn berthnasol i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru sydd o fewn cylch gwaith y corff llywodraethu newydd.

Ymateb: Gwrthod

Gweler yr ymateb i Argymhelliad 19 gan y bydd yr un ystyriaethau'n berthnasol.

Argymhelliad 21

Rhaid i'r corff llywodraethu newydd allu derbyn cwynion o sylwedd gan ddinasyddion am dorri cyfraith amgylcheddol, neu achosion posibl o dorri cyfraith amgylcheddol.

Ymateb: Yn derbyn

Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i gynnal hawliau dinasyddion, gan gynnwys mynediad at godi unrhyw faterion sy'n ymwneud â gweithredu cyfraith amgylcheddol.

Byddwn yn parhau i drafod gyda rhanddeiliaid a chynrychiolwyr y cyrff atebolrwydd presennol yng Nghymru ynghylch y dull priodol o ddarparu'r mecanwaith hwn.

Argymhelliad 22

Rhaid i'r system gwynion newydd fod yn syml i ddinasyddion gael mynediad ati, yn rhad ac am ddim, a heb rwymedigaeth.

Ymateb: Yn derbyn

Fel y nodwyd yn ein hymgyngoriad, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r rhain hefyd fod yn elfennau o unrhyw swyddogaeth gwyno newydd. Rydym yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu cynigion ar gyfer sut y gallai proses gwynion weithredu yng Nghymru.

Argymhelliad 23

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw waith rhagarweiniol a wnaed i asesu'r adnoddau sy'n gysylltiedig â sefydlu corff llywodraethu newydd sy'n gweithredu yng Nghymru.

Ymateb: Yn derbyn

Mae'r Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid ar Lywodraethu Amgylcheddol wrthi'n ystyried gwahanol fathau o fodelau ar hyn o bryd, gan gynnwys y ffurf y dylid ei roi ar fodel o'r fath. Felly, ar hyn o bryd nid oes unrhyw fath pendant o endid wedi'i argymhell eto. Fel rhan o ddiffinio model a ffefrir, bydd gwaith yn cael ei wneud i asesu unrhyw adnoddau tebygol sydd eu hangen.

Argymhelliad 24

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor ar unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU am gyllid yn y dyfodol i dalu cost corff llywodraethu newydd sy'n gweithredu yng Nghymru.

Ymateb: Yn derbyn

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth y DU, ond rydym yn pryderu ynghylch y diffyg tryloywder ac ymgysylltu ystyrion â'r gweinyddiaethau datganoledig ynghylch beth ddaw yn lle cyllid yr UE.

Rydym yn disgwyl i unrhyw Lywodraeth ar gyfer y DU anrhydeddu ei hymrwymiad i barchu'r setliad datganoli ac i sicrhau na fydd Cymru geiniog yn dlotach ar ôl i ni

adael yr UE. Mae'n rhaid i'r arian hwn a'r hyblygrwydd i'w reoli gael ei drosglwyddo'n llawn i Gymru, heb rag-amod.

Argymhelliad 25

Dylai Llywodraeth Cymru nodi llinell amser ar gyfer datblygu a gweithredu'r trefniadau pontio a ffefrir ganddi. Hefyd, dylai adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor, cyn pen tair wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, ar waith y grŵp rhanddeiliaid sydd â gorchwyl i ystyried cynigion ar gyfer trefniadau pontio.

Ymateb: Yn derbyn

Ar ôl yr Etholiad Cyffredinol ar 12 Rhagfyr, os cytunir ar gytundeb gyda'r UE, wedi'i ddilyn gan gyfnod pontio, byddwn yn parhau i fod o dan awdurdodaeth sefydliadau'r UE tra pery'r cyfnod pontio.

Er bod yna estyniad bellach i Erthygl 50, gallai senario heb gytundeb ddod i'r amlwg a fydd yn arwain at yr angen am fesurau dros dro. Mae'r Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid ar Lywodraethu Amgylcheddol wedi rhoi cyngor ar fesurau dros dro ac rwyf wedi cytuno i fabwysiadu dull o reoli cwynion pe na bai unrhyw gytundeb.

Rydw i dal mewn trafodaeth adeiladol gyda'm rhanddeiliaid ynghylch datblygu argymhellion ar gyfer unrhyw fesurau interim, a fydd yn cael eu rhoi i mi i'w hystyried. Fel y cyfryw, ar hyn o bryd nid wyf mewn sefyllfa i rannu amserlenni ar gyfer datblygu unrhyw ddull gweithredu a ffefrir. Fodd bynnag, byddaf yn hapus i ymgysylltu â'r Pwyllgor ar ôl imi ystyried eu cynigion.

Argymhelliad 26

Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddi benderfynu ar y dull a ffefrir ganddi o ran trefniadau pontio, a chyn datblygu cynigion terfynol, dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys asesiad effaith cynhwysfawr o'r dulliau a ystyriwyd, gan gynnwys manylion y costau cysylltiedig, a'r rhesymeg dros y dull a ffefrir ganddi.

Ymateb: Yn derbyn

Ar ôl yr Etholiad Cyffredinol ar 12 Rhagfyr, os cytunir ar gytundeb gyda'r UE, wedi'i ddilyn gan gyfnod pontio, byddwn yn parhau i fod o dan awdurdodaeth sefydliadau'r UE tra pery'r cyfnod pontio. Ni fydd unrhyw gostau ychwanegol.

Er bod yna estyniad i Erthygl 50 bellach, gallai senario heb gytundeb ddod i'r amlwg a fydd yn arwain at yr angen am fesurau dros dro; mae'r Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid ar Lywodraethu Amgylcheddol wedi darparu cyngor ar fesurau dros dro ac rydw i wedi cytuno ar ddull o reoli cwynion i'w mabwysiadu pe na bai gytundeb. Bydd costau'r weithdrefn gychwynnol hon yn cael eu talu o'r adnoddau presennol. Byddai hyn yn fecanwaith cwynion syml i ddinasyddion godi unrhyw gwynion pe na bai unrhyw gytundeb.

Rydym wedi cymryd agwedd agored tuag at ddatblygu mesurau dros dro drwy weithio gyda rhanddeiliaid a swyddogion ac mae'r Grŵp Gorchwyl yn datblygu elfennau ychwanegol hefyd lle mae angen mesur dros dro hyd nes y darperir ateb parhaol. Disgwyliaf dderbyn rhagor o fanylion am yr elfennau ychwanegol hyn yn gynnar yn 2020 a byddaf yn eu hystyried bryd hynny. Yn dilyn fy mhenderfyniad, bydd modd ystyried costau cysylltiedig ac asesiadau effaith cynhwysfawr ond bydd yr amseru yn dibynnu ar os neu pan fydd y DU yn gadael yr UE. Rwy'n hapus i rannu'r wybodaeth hon gyda'r Pwyllgor pan fydd hyn wedi'i wneud.